# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 11 Mawrth 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

## Agenda

(185)v6

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganlyniadau'r modiwlau TGAU Saesneg a gafodd eu cymryd ym mis Ionawr?

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Moderneiddio Amaethyddiaeth yng Nghymru: Systemau ar-lein i Ffermwyr (30 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Cynnydd ar Wella Caffael Cyhoeddus (30 munud)**

**5 Dadl: Yr Ail Gyllideb Atodol 2013-14 (30 munud)**

**NDM5433 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 11 Chwefror 2014.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

(i) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

(ii) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(iii) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

(iv) cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig; a

(v) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfennau Ategol**
Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14
Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2013-14 - Memorandwm Esboniadol
Y Gwasanaeth Ymchwil, Papur Ymchwil ar yr Ail Gyllideb Atodol 2013-14

Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Graffu ar Gynnig y Gyllideb Atodol 2013-14

**6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i amrywio trefn ystyried gwelliannau'r Cyfnod Adrodd i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (5 munud)**

**NDM5446 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn y Cyfnod Adrodd yn y drefn ganlynol:

a) adrannau 2–79

b) atodlen 1

c) adrannau 80 –137

d) atodlen 2

e) adrannau 138–173

f) atodlen 3

g) adrannau 174 – 194

h) adran 1

i)Teitl Hir

**Cyfnod Pleidleisio**

**7 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Addysg (Cymru) (120 mins)**
Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

**1.Enw Cyngor y Gweithlu Addysg**

20, 2, 24, 25, 26

**2. Nodau a swyddogaethau'r Cyngor**

21, 3, 58

**3. Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus**

49, 50, 54

**4. Ffioedd cofrestru**

51

**5. Gweithdrefnau deddfwriaethol (argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol)**

28, 29, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 46, 47, 48

**6. Sefydlu a gwerthuso**

4

**7. Swyddogaethau disgyblu**

22, 5, 6, 7, 23, 10

**8. Deddf Addysg 1996: diffiniadau**

8, 9, 11, 13, 14, 15, 16, 17, 18

**9. Dyddiadau gwyliau ysgol**

27

**10. Cyllid ar gyfer grantiau**

52, 53, 55

**11. Ymestyn cofrestru ar gyfer gweithwyr ieuenctid**

56, 57

**12. Technegol**

12

**13. Teitl hir**

19, 1

**Dogfennau Ategol**
Bil Addysg (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli
Grwpio Gwelliannau

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 12 Mawrth 2014